

**ssce**  
**CYMRU**



SUPPORTING SERVICE CHILDREN  
IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN  
ADDYSG YNG NGHYMRU



# BWLETIN MISOL

MAWRTH 2024



**ssce**  
**CYMRU**

CLIC  
WLGA

# Negeseuon gan dîm SSCE Cymru...

## Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol Dwyrain Cymru



“Dydd Dewi Hapus! Mae wedi bod yn wych gweithio gyda chymaint o ysgolion yn ddiweddar sy'n rhoi darpariaeth ar waith i gefnogi eu plant milwyr ymhellach a dod yn Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda fy ysgolion a chefnogi ysgolion newydd wrth i ni anelu at y Pasg. Mae Mis y Plentyn Milwrol yn codi'n fuan iawn ym mis Ebrill, mae hwn yn fis anhygoel i ddathlu plant eich milwyr a'u profiadau unigryw. Os hoffech chi gael syniadau ar sut y gallech ddathlu ym mis Ebrill, ewch i dudalen [Mis y Plentyn Milwrol](#) ar ein gwefan. Peidiwch ag anghofio ein sesiwn galw heibio cyllid rithwir nesaf yw dydd Mawrth 5ed Mawrth, 15:30-16:30, galwch draw am sgwrs am bob peth i wneud gyda cyllid drwy'r [ddolen ar ein gwefan](#). Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld chi yno.


Rwy'n drist fy mod yn gadael fy rôl gyda SSCE Cymru ddiwedd mis Mawrth. Mae wedi bod yn bleser mawr gweithio gyda chymaint o ysgolion anhygoel, i'w cefnogi ar eu taith o ddeall profiadau plant y Lluoedd Arfog a'u helpu i ymgorffori cefnogaeth yn eu lleoliad. Diolch am bopeth rydych chi'n ei wneud ar gyfer cymuned ein Lluoedd Arfog yng Nghymru. Bydd tîm SSCE Cymru yn parhau i weithio gydag ysgolion yng Nghymru i wreiddio cefnogaeth i blant y Lluoedd Arfog. O 1af Ebrill, cyfeiriwch unrhyw ymholiadau i'r [SSCECymru@wlga.gov.uk](mailto:SSCECymru@wlga.gov.uk).” **Emilee**

## Swyddog Arweiniol Cyfranogiad

“Dydd Gŵyl Dewi Hapus! Mae mis Mawrth yn croesawu'r gwanwyn ac yn dod â newid. Newid. Y ferf yw i gwneud (rhywbeth neu rywun) yn wahanol, newid neu addasu neu mae'r enw yn weithred neu'n broses lle mae rhywbeth neu rywun yn dod yn wahanol. Mae newid yn rhywbeth y mae teuluoedd Lluoedd Arfog yn gwybod llawer amdano. Mae rhai plant milwyr yn profi llawer iawn o newid trwy gydol eu plentyndod o ganlyniad i fod yn rhan o deulu'r Lluoedd Arfog. Mae SSCE Cymru ar fin cael rhywfaint o newid, bydd ein tîm yn lleihau ddiwedd y mis a bydd y rhaglen fel y mae'n edrych nawr yn wahanol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddweud diolch yn fawr i'n Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol (RSLOs) anhygoel ar hyn o bryd. Emilee, Cara, Emma ac Ellis, mae wedi bod yn bleser gweithio gyda chi i gyd a lle bynnag y bydd y newid hwn yn mynd â chi, gwybod y byddwch chi'n cael eich colli ac y bydd SSCE Cymru yn parhau i gefnogi plant milwyr mewn addysg diolch i'ch holl ymdrechion. Dymuniadau gorau a phob lwc! I unrhyw ysgolion sydd wedi gweithio gyda'n RSLOs, gadewch i ni edrych ymlaen at fis Ebrill a gwneud Mis y Plentyn Milwrol eleni yn un arbennig!”

Jo, [Joanna.wolfe@wlga.gov.uk](mailto:Joanna.wolfe@wlga.gov.uk)





Mae hwn yn gyfle i'n tîm gydnabod SEREN SSCE Cymru yn gyhoeddus, a dweud diolch i blentyn y Lluoedd Arfog, aelod o staff ysgol, cydweithiwr gwaith, aelod o'r rhwydwaith neu sefydliad sydd wedi cydweithio'n gadarnhaol â ni neu wedi dangos cefnogaeth eithriadol i blant milwyr mewn addysg a'u cymuned Lluoedd Arfog lleol. Rydym yn ddiolchgar i weithio gydag unigolion a grwpiau gwirioneddol ysbrydoledig sy'n sicrhau bod plant y Lluoedd Arfog yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu yma yng Nghymru.

## Seren y mis – Mawrth 2024

Y mis hwn, rydyn ni'n diolch yn fawr iawn i bedwar Seren y mis!!!

Mae Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol SSCE Cymru (RSLOs) wedi bod yn allweddol yn natblygiad rhaglen SSCE Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Mae profiadau personol a phroffesiynol wedi dod â chyfoeth o wybodaeth i'r rhaglen, sydd wedi ein galluogi i gynyddu ein pecyn cymorth a'n hadnoddau. Mae hyn yn golygu bod gan leoliadau addysg yng Nghymru bellach ddealltwriaeth llawer cryfach o brofiadau plant y Lluoedd Arfog a'u bod yn barod iawn i gefnogi'r grŵp unigryw hwn o ddysgwyr.

Mae pob un ohonoch wedi bod yn bleser gweithio gyda. Rydych yn hynod o weithgar, ymroddgar, brwdfrydig ac mae pob un ohonoch wedi bod yn eiriolwyr cryf dros blant milwyr yng Nghymru.


Diolch yn fawr, diolch yn fawr - pob lwc gyda'ch camau nesaf - byddwn yn colli chi gymaint!



Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am Seren y mis SSCE Cymru.



Cara, Emilee, Ellis and Emma  
SSCE Cymru RSLOs



**ssce**  
**CYMRU**


SUPPORTING SERVICE CHILDREN  
IN EDUCATION IN WALES

CEFNOGI PLANT MILWYR MEWN  
ADDYSG YNG NGHYMRU

Lansiwyd menter Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog (AFFS) Cymru SSCE Cymru yn 2022. Mae ysgolion yng Nghymru yn cwblhau cyfres o weithgareddau a chamau gweithredu sy'n gysylltiedig â Rhestr Wirio Ysgolion SSCE Cymru, gan gynnwys rhai elfennau gorfodol, er mwyn cyflawni eu statws Efydd, yna Arian ac yna Aur. Yr amcanion yw ymgorffori arfer da ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog, creu amgylchedd cadarnhaol i blant y Lluoedd Arfog rannu eu profiadau ac annog ysgolion i ymgysylltu'n well â chymuned eu Lluoedd Arfog.


**Y mis hwn, rydym yn falch o longyfarch yr ysgolion canlynol am gyflawni eu statws AUR AFFS Cymru:**  
- Baglan Primary School (Castell-nedd Port Talbot)

**Llongyfarchiadau** i bob ysgol sydd wedi cyflawni eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru. Hyd yn hyn, mae 21 o ysgolion wedi cyflawni eu statws AFFS Cymru. Mae 21 wedi ennill Efydd, 5 wedi ennill Arian a 4 wedi ennill Aur!!



**i** Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru.





# Rhagor o wybodaeth...

## E-ddysgu SSCE Cymru

Mae'n bleser gan dîm SSCE Cymru gyhoeddi y byddwn, yn ystod Mis y Plentyn Milwrol ym mis Ebrill, yn lansio ein pecyn hyfforddi e-ddysgu newydd ar alw, dwyieithog ac e-ddysgu ar 'Cefnogi plant milwyr mewn addysg yng Nghymru', yn seiliedig ar gynnwys y sesiynau DPP sydd wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus gan yr RSLOs dros y blynyddoedd diwethaf.

### Y pynciau sydd wedi'u cynnwys yn yr e-ddysgu yw:

- Cyflwyniad i SSCE Cymru
- Y Lluoedd Arfog yng Nghymru
- Profiadau plant y milwyr
- Addysg yng Nghymru
- Adnabod plant milwyr
- Iechyd meddwl a lles
- Gweithgareddau allgyrsiol
- Cyllid i gefnogi plant y milwyr
- Ymchwil a thystiolaeth.



## Casglu data SSCE Cymru

Mae data'r llynedd a chynhelir gan SSCE Cymru yn dangos bod dros 35% o ysgolion yng Nghymru wedi cofrestru plant milwyr, gyda thua hanner y rheini gyda mond 1 neu 2.

Hoffai SSCE Cymru sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gref o nifer a lleoliad plant milwyr yng Nghymru. Felly, rydym yn gofyn i bob ysgol, os nad ydyn nhw eisoes, lenwi'r ffurflen ddigidol [yma](#) i roi'r cofnod mwyaf cywir i ni.

Gofynnwn yn garedig i ysgolion gwblhau hyn cyn gynted â phosibl.

I'ch cefnogi gyda'r gweithgaredd hwn, byddem yn argymhell eich ysgol i ystyried defnyddio

[Offeryn 4 SSCE Cymru \(Llythyr templed at rieni/gofalwyr\)](#) neu ddefnyddio offeryn arolwg ar-lein am ddim (e.e. Ffurflenni Microsoft) i gasglu'r data.

Cysylltwch â'ch [Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol \(RSLO\)](#) am gymorth.

**i** Gweler mwy o wybodaeth yma

# Digwyddiadau...

## Gwyliau'r Lluoedd Arfog 2023/24

Yn 2023/24, trefnodd SSCE Cymru gyfres o ddigwyddiadau Gŵyl y Lluoedd Arfog yn y pedwar rhanbarth ledled Cymru. Daeth y digwyddiadau hyn â phlant y Lluoedd Arfog a'u cyfoedion ynghyd o bob rhan o'r rhanbarth i gymryd rhan mewn diwrnod llawn hwyl o weithgareddau a ddarperir gan nifer o sefydliadau allanol.

Daeth 245 o blant milwyr gyda 58 o'u cyfoedion i'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn Ysgol Uwchradd Hwlfordd, Barics Rhagland, RAF y Fali a Barics Maendy.

**Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y sefydliad a llwyddiant y digwyddiadau hyn!!**





ssce:  
CYMRU



# Month of the Military Child Mis y Plentyn Milwrol



April/Ebrill | #MotMCCymru

## Sut y gall ysgolion gymryd rhan...

- Deall
- Ymgysylltu
- Dathlu



Gweler mwy  
o wybodaeth  
yma

**ssce:**  
**CYMRU** SUPPORTING SERVICE CHILDREN  
IN EDUCATION WALES  
CYNORTHWYO PLANT MILWYR  
YN YSGOLION CYMRU



# Sesiynau galw heibio SSCE Cymru

NEWYDD

O fis Ebrill 2024, bob mis, bydd SSCE Cymru yn cynnal cyfres o sesiynau galw heibio anffurfiol sy'n canolbwyntio ar themâu penodol. Dewch draw i unrhyw un o'r sesiynau sydd o ddi-ddordeb i chi, lle bydd aelodau o dîm SSCE Cymru yn rhannu gwybodaeth berthnasol, yn hyrwyddo adnoddau, yn cydlynu trafodaethau, yn ateb eich cwestiynau ac yn creu cyfleoedd i gydweithio.

## Mae themâu sesiynau galw heibio yn cynnwys:

- Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru
- Llais plant y Lluoedd Arfog
- Cyllid ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog
- Cynlluniau Gweithredu Awdurdodau Lleol
- SCiP Alliance Thriving Lives Toolkit.

*Yn ogystal â themâu ychwanegol ar adegau penodol o'r flwyddyn (h.y. Mis y Plentyn Milwrol, Diwrnod y Lluoedd Arfog)*



Gweler y manylion pellach, gan gynnwys yr amserlen lawn a'r cyfarwyddiadau ymuno yma

## Amserlen MIS EBRILL

08/04 10:00

09/04 14:00  
Mis y Plentyn  
Milwrol

10/04 10:00  
Cyllid ar gyfer  
cefnogi plant y  
Lluoedd Arfog

11/04 14:00  
Ysgolion sy'n  
Cefnogi'r Lluoedd  
Arfog Cymru

12/04 10:00  
Mis y Plentyn  
Milwrol

15/04 10:00  
Mis y Plentyn  
Milwrol

16/04 14:00  
Llais plant y  
Lluoedd arfog

17/04 10:00  
Ysgolion sy'n  
Cefnogi'r Lluoedd  
Arfog Cymru

18/04 15:00  
Ysgolion sy'n  
Cefnogi'r Lluoedd  
Arfog Cymru

19/04

22/04

23/04

24/04 14:00  
Cyllid ar gyfer  
cefnogi plant y  
Lluoedd Arfog

25/04 10:00  
Llais plant y  
Lluoedd arfog

26/04 10:00  
Ysgolion sy'n  
Cefnogi'r Lluoedd  
Arfog Cymru

29/04 15:00  
Ysgolion sy'n  
Cefnogi'r Lluoedd  
Arfog Cymru

30/04 14:00  
Ysgolion sy'n  
Cefnogi'r Lluoedd  
Arfog Cymru

SSCE  
CYMRU

CLILC  
WLGA

# Cyllid...

## Cronfa Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg yng Nghymru

Yn 2023/24, gall ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais am gyllid drwy gydol y flwyddyn, i gyflwyno prosiectau sy'n benodol i gefnogi plant milwyr mewn addysg, sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm yng Nghymru.



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

Brosiectau £1,000 – sy'n agored i bob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru.

Brosiectau £5,000 – Agored i ysgolion sydd wedi cyflawni statws efydd Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog  
**NAWR AR GAU AR GYFER 2023/24**



Gweler mwy o wybodaeth yma

**DYDDIAD CAU NESAF:**  
**22 Mawrth**

## Ddogfen cyngor ariannol SSCE Cymru

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor gan dîm SSCE Cymru ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo wrth wneud cais am gyllid i gefnogi plant milwyr / cymuned y Lluoedd Arfog lleol.

Mae hefyd yn cynnwys rhestr wirio o gamau gweithredu awgrymedig i helpu wrth baratoi a chwblhau cais am gyllid a rhestr o syniadau ac awgrymiadau cyllido.

**Ar gael yma**

## Cymorth rheoli achosion SSCE Cymru

Mae rheoli achosion ar gael i ysgolion sydd â phlentyn Lluoedd Arfog unigol neu nifer fach iawn o blant Lluoedd Arfog sydd ag angen penodol sy'n gysylltiedig ag effaith ffordd o fyw eu Lluoedd Arfog.

Gweler mwy o wybodaeth yma

## Rhaglen Cefnogi Disgyblion y Gwasanaeth 2024/25

O dan y rhaglen hon, bydd Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog yn dyfarnu grantiau ar gyfer prosiectau annibynnol sy'n amrywio rhwng £5,000 ac £80,000 ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi plant y Lluoedd Arfog ar hyd eu Llwybr Addysgol. Bydd y cyllid hwn yn galluogi plant y Lluoedd Arfog i gyrraedd eu potensial bywyd llawn.

Disgwylir i'r rhaglen hon agor ym mis Ebrill a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fydd diwedd mis Mai. Disgwylir i'r themâu a'r blaenoriaethau fod yr un fath â 2023/24:

- Cau bylchau cyrhaeddiad
- Mynd i'r afael ag anghenion plant milwyr ag ADY
- Nodi a mynd i'r afael ag anghenion carfannau bach o blant y Lluoedd Arfog.



Gweler mwy o wybodaeth yma

**AGOR:**  
**EBRILL**